

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad: 28.02.2024

Teitl: Papur Trafod ar gyfer ffrydio byw pwyllgorau ychwanegol

Pwrpas yr adroddiad: I ystyried y papur trafod

Cefndir

Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ceredigion yn darlledu'r gweithgareddau pob cyfarfod o'r Cyngor a'r Cabinet. Mae hyn yn fwy na gofynion presennol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor. Darlledir y cyfarfodydd hyn trwy wefannau Facebook y Cyngor, sydd yn ddwys iawn o ran adnoddau gan ei bod yn ofynnol i swyddog TGCh fynychu pob cyfarfod o bell er mwyn hwyluso'r ffrydio byw i safle Facebook Cyngor Sir Ceredigion (sy'n darparu darllediad gyda chyfieithu) ac i safle Facebook Cyngor Sir Ceredigion (a ddarlledir heb gyfieithu).

Ym mis Hydref 2023, cynhaliodd Swyddogion TGCh a Gwasanaethau Democrataidd brofion i brosesau ffrydio byw y system rheoli cyfarfodydd hybrid i sicrhau ei bod yn gallu bodloni'r gofynion ar gyfer darlledu cyn i'r system fynd yn fyw. Roedd y profion yn llwyddiannus, fodd bynnag mae angen 'chydig a ddatblygu pellach gan y gwasanaeth TGCh er mwyn sicrhau fod y broses o rannu cyflwyniadau yn gweithio'n iawn. Unwaith bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, fe fydd Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn gallu rheoli'r ffrydio heb fod angen am gymorth gan Swyddogion TGCh. Fe fydd hyn yn ei dro yn galluogi cyfleoedd i gynyddu'r nifer o gyfarfodydd sy'n cael eu darlledu'n fyw ac sydd ar gael am gyfnod penodol ar ôl y cyfarfod, heb fod angen i Swyddog TGCh fod yn bresennol.

Yn ystod ei gyfarfod dyddiedig 20 Medi 2023, gofynnodd Aelodau o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ystyriaeth o ran ffrydio byw pwyllgorau ychwanegol gael ei gynnwys ar y blaenraglen waith. Mae'r papur hwn wedi'i ddrafftio i annog trafodaeth gan Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch y flaenoriaeth a'r amserlen ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth hon fesul cam.

Mae'r adborth a dderbyniwyd gan Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru yn argymhell bod y Swyddog Monitro neu ei Ddirprwy yn bresennol ym mhob cyfarfod sy'n cael ei ddarlledu. Felly rhoddwyd ystyriaeth i gapasiti'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy i fynychu cyfarfodydd ac mae'r argymhellion yn adlewyrchu hyn.

Amserlen a argymhellir ar gyfer darlledu ychwanegol

Cyngor	Darpariaeth ddarlledu eisoes yn ei le
Cabinet	Darpariaeth ddarlledu eisoes yn ei le
Pwyllgor Rheoli Datblygu	Dechrau darlledu o fis Mai 2024

Argymhellion:

I Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried, a gwneud argymhellion i'r Cyngor ynghylch ymestyn y darlledu i gynnwys cyfarfodydd pwyllgor ychwanegol.

Atodiadau:**Dogfennau cefndir:**

Canllawiau statudol ac anstatudol ar gyfer Prif Gyngor Cymru

Enw:

Lowri Edwards

Teitl Swydd:

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad:

29.12.2023